

Disgrifiad o'r Rôl



Teitl: Aelod Bwrdd, Cymru Masnach Deg

Pwrpas: Cymryd rhan yng ngweithgareddau bwrdd Cymru Masnach Deg sy'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad, ac sy'n rhoi arweiniad i dîm bach o staff ar yr amcanion y disgwylir iddynt eu cyflawni. Cefnogi'r Cadeirydd wrth ddelio â chyllidwyr a chysylltiadau allweddol eraill.

Lleoliad: O gartref, ond bydd angen teithio i gyfarfodydd y Bwrdd tua phedair gwaith y flwyddyn, a chymryd rhan mewn trafodaethau telegynadledda rhwng gyfarfodydd.

Tâl: Swydd ddi-dâl yw hon, ond telir costau rhesymol sy'n gyson â gweithio yn y sector gwirfoddol/cyhoeddus.

Ymrwymiad Amser: Hyblyg, ond mae angen bod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac ymateb i e-byst. Efallai y bydd angen cyflawni dyletswyddau cynrychiadol eraill o bryd i'w gilydd. Mae cyfanswm yr amser yn annhebygol o fod yn fwy nag un neu ddau ddiwrnod y mis.

Cefndir sefydliadol: Mae Cymru Masnach Deg yn Gwmni Cyfyngedig drwy warrant gyda statws dielw.

Mae'r Bwrdd yn darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y sefydliad, sydd yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan Gydlynnydd Cenedlaethol cyflogedig sydd, gydag arweiniad y bwrdd, yn paratoi cynlluniau busnes/gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o gyllid y sefydliad yn deillio o grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r grant hwn yn cael ei weinyddu drwy bartneriaeth Hub Cymru Africa, y mae Cymru Masnach Deg Cymru yn aelod ohoni. Partneriaid eraill yw Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (prif bartner a gwesteigr), Panel Cyngori Is-Sahara, a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru o Blaid Affrica.

Er nad yw'n dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn ffurfiol, mae'r sefydliad yn ceisio cyflawni arfer gorau yn y maes hwn, a defnyddio arfer gorau ym maes rheolaeth ariannol hefyd.

Cysylltiadau allweddol

- Cadeirydd ac aelodau eraill o'r Bwrdd
- Cydlynnydd Cenedlaethol/aelodau o staff
- Pennaeth Partneriaeth, Hub Cymru Africa
- Aelodau o fwrdd a staff sefydliadau partner eraill Hub Cymru Africa
- Y gymuned Masnach Deg wirfoddol yng Nghymru

Rolau a Chyfrifoldebau Allweddol

- Cymryd rhan mewn trafodaethau sy'n galluogi'r Bwrdd i ddatblygu cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad
- Cynrychioli Cymru Masnach Deg mewn cyfarfodydd priodol a swyddogaethau

swyddogol

- Gweithredu fel llysgennad ar gyfer Masnach Deg yng Nghymru
- Helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ei faterion busnes mewn modd disgybledig ac effeithlon

Manyleb Person

Rydym eisiau i'n bwrdd fod yn amrywiol, a chynrychioli Cymru gyfan. Yn ogystal ag arbenigwyr profiadol, hoffem recriwtio pobl iau a phobl sydd heb gefndir proffesiynol.

Rydym eisiau i'n Haelodau o'r Bwrdd gael:

- Diddordeb mewn Masnach Deg, a'i gefnogi
- Y gallu i gymryd rhan mewn trafodaethau am sut i hyrwyddo Masnach Deg yng Nghymru a sut i ddatblygu gwaith Cymru Masnach Deg.
- Y parodrwydd i gyfrannu egni, amser a brwdfrydedd i gefnogi'r sefydliad